

11. Y Treigladau

		Treigladd Meddal	Treigladd Trwynol	Treigladd Llaes
p		b	mh	ph
t		d	nh	th
c		g	ngh	ch
b		f	m	
d		dd	n	
g		/	ng	
ll		l		
rh		r		
m		f		

Y Treigladd Meddal

Rheswm Dros y Treigladd	Enghraifft
<p>yn/'n</p> <ul style="list-style-type: none"> yn+ansoddair (ond peidiwch â threiglo ll a rh) yn+oed yn+amser 	<p><i>Mae'r ferch yn dal iawn.</i></p> <p><i>Mae'r ferch fach yn ddeg oed.</i></p> <p><i>Mae hi'n ddeg o'r gloch.</i></p>
Enw benywaidd ar ôl y Fannod (ond nid oes angen treiglo ll a rh)	y gadair, y fenyw, y ddaear
<p>Rhifau</p> <ul style="list-style-type: none"> un + enw benywaidd unigol ar ôl dau a dwy 	un gath, un ddeilen dau fwrdd, dwy gadair

(Treigladd Meddal—parhad)

Rheswm Dros y Treigladd	Enghraifft
<p>Rhifolion (cyntaf, ail, trydydd ayb.)</p> <ul style="list-style-type: none">• <u>cyntaf</u> ar ôl enw benywaidd unigol• ar ôl <u>ail</u>• gydag <u>enwau benywaidd</u> mae <i>dau</i> dreigladd meddal h.y. mae'r rhifolyn yn treiglo hefyd	<p>y ferch <i>gyntaf</i> yn y ras</p> <p>yr ail <i>fwrdd</i>, yr ail <i>gadair</i> y <i>bumed wers</i>, y <i>bumed gath</i></p>
<p>Amser</p> <ul style="list-style-type: none">• ar ôl <u>yn.../n....</u>• ar ôl <u>am, i, o.. tan....</u>• mewn <u>adferf</u> i ddynodi amser• ar ôl <u>ar</u>	<p>Mae hi'n <i>ddeg</i> o'r gloch Mae'r gêm am <i>bump</i> o'r gloch. Bydd y rhaglen o <i>dri</i> tan <i>bedwar</i>. Mae hi'n canu <i>ddydd</i> Llun. Bydd e'n chwarae ar <i>ddydd</i> Sul.</p>
<p>Berfau</p> <ul style="list-style-type: none">• y <u>negyddol</u>: mewn berfau sy'n dechrau gyda <i>b, d, g, ll, rh, m</i> ar ddechrau <u>cwestiwn</u>• <u>gwrthrych</u> ffurf gryno'r ferf• berfenw <u>yn dilyn</u> <i>wnes i/wnest ti</i> (ond ddim yn y negyddol)• yn y berfenw sy'n dilyn <u>dylwn, gallwn, hoffwn</u> (ond ddim yn y negyddol)• berfau sy'n dilyn <u>mi a fe</u>• Gwrthrych amhendant <u>gorchymyn</u>	<p><i>Fwytais</i> i ddim...</p> <p><i>Gerddaist</i> ti i'r ysgol? <i>Darllenon</i> ni <i>lyfr</i> yn y wers. <i>Wnest</i> ti <i>orffen</i> dy waith?</p> <p><i>Dylwn</i> i <i>ddarllen</i> y <i>lyfr</i> <i>Gallwn</i> i <i>gerdded</i> i ben y mynydd. (<i>Allwn</i> i ddim <i>gorffen</i> y <i>gwaith</i>.) <i>Mi gerddais</i> i, <i>Fe ddarllenais</i> i <i>Defnyddiwch</i> <i>gyfrifiadur</i></p>
<p>Arddodiaid</p> <p>Yn dilyn yr arddodiaid: <u>am, ar, at, gan, heb, i, o, dan, dros, drwy, wrth, hyd, gyda</u> (mae angen treiglo ar ôl ffurfiau <u>gan</u>)</p>	<p>Maen nhw'n mynd am <i>wyliau</i>. Maen nhw'n teithio ar <i>fws</i>. Mae'n dda gen i <i>orffen</i> y <i>gwaith</i>. Mae gen i <i>ormod</i> o waith.</p>
<p>Ansoddeiriau</p> <ul style="list-style-type: none">• <u>yn</u> + ansoddair (ond peidiwch â threiglo <i>ll</i> a <i>rh</i>)• mewn ansoddair ar ôl <u>enw benywaidd unigol</u>• mewn <u>enw</u> sy'n dilyn ansoddair• mewn ansoddair yn dilyn <u>rhy</u> neu <u>gweddol</u>• mewn ansoddair yn dilyn <u>mor</u> (ond peidiwch a threiglo <i>ll</i> a <i>rh</i>)	<p>yn <i>fach</i>, yn <i>greulon</i></p> <p>cadair <i>feddal</i>, cath <i>ddof</i></p> <p>hen <i>fenyw</i>, tawel <i>fan</i> rhy <i>dawel</i>, gweddol <i>fuan</i></p> <p>mor <i>dawel</i>, (mor <i>llonydd</i>)</p>

(Treigladd Meddal—parhad)

Rheswm Dros y Treigladd	Enghraifft
<p>Rhagenwau</p> <ul style="list-style-type: none">• ar ôl <u>dy</u>• ar ôl <u>ei</u> (gwrywaidd)• ar ôl <u>i'w</u> (gwrywaidd)• mewn <u>cymal perthynol</u> (yn aml rydyn ni'n gadael yr <u>ei</u> allan ond mae'r treigladd yn aros)• Cwestiynau: Berf/berfenw yn dilyn <u>Pwy? Beth? Faint? Pa fath?</u> (eto, yn aml rydyn ni'n gadael yr <u>ei</u> allan ond mae'r treigladd yn aros)	<p>dy <i>fag</i>, dy <i>dad</i>, dy <i>gartref</i> Mae wedi colli ei <i>lyfr</i>. Rydw i'n mynd i'w <i>weld</i> Y bag rydw i'n (ei) <i>gario</i>. Y tŷ maen nhw'n ei <i>beintio</i>.</p> <p>Pwy mae hi'n (ei) <i>gasau</i>? Beth rwy'ti'n (ei) <i>fwyta</i>?</p>
<p>Y Cymal Adferfol ar ôl <u>pan</u></p>	<p>Bydd hi'n gweithio pan <i>fydd</i> angen.</p>
<p>Y Cymal Perthynol ar ôl <u>a</u> (ond nid pan mae <u>a</u> yn golygu <i>and</i>)</p>	<p>Dyma'r bachgen a <i>welais</i> i. Hon yw'r sgert a <i>wisgais</i> i.</p>

Y Treigladd Trwynol

Rheswm Dros y Treigladd	Enghraifft
<p>yn ar ôl <u>yn</u> + enw lle (Mae'r <u>yn</u> yn gallu newid hefyd)</p>	<p>ym <i>Mhontypridd</i> yn <i>nhŷ</i> Dafydd yng <i>Nghaerdydd</i></p>
<p>ar ôl y rhagenw <u>fy</u> pan mae enw, berfenw neu <i>bod</i> yn dilyn y rhagenw <u>fy</u></p>	<p>fy <i>nghartref</i> Mae'r haul yn fy <i>nallu</i> i. Maen nhw'n gwybod fy <i>mod</i></p>
<p>blynedd neu blwydd Pan yn disgrifio unrhyw <u>flwyddyn</u> neu <u>oedran</u> sy'n cynnwys y rhifau 5, 7, 8, 9 a 10.</p>	<p>pum <i>mlynedd</i> saith <i>mlwydd</i> oed wyth <i>mlynedd</i></p>

Y Treigladd Llaes

Rheswm Dros y Treigladd	Enghraifft
a ar ôl <u>a</u> pan mae a yn golygu <i>and</i>	cath a <i>chi</i> bwrdd a <i>chadair</i>
â/gyda ar ôl <u>â</u> neu <u>gyda</u>	torri <u>â</u> <i>chyllell</i> gyda <i>chap</i> ar ei ben
ni/na ar ôl y cysylltair negyddol <u>na</u>	ni <i>chlywais</i> y gloch y llyfr na <i>ddarllenais</i>
Rhagenwau • ar ôl <u>ei</u> (benywaidd) • ar ôl <u>i'w</u> (benywaidd)	ei <i>thad</i> , ei <i>chadair</i> o'i <i>phen</i> i'w <i>thraed</i>
Berfau Cryno • <u>y negyddol</u> : mewn berfau sy'n dechrau gyda p, t, c	<i>Phrynon</i> nhw ddim <i>Chlywodd</i> hi ddim y gloch
Rhifau • yn dilyn y rhif <u>tri</u> • yn dilyn y rhif <u>chwe</u>	tri <i>chi</i> , anghenfil tri <i>phen</i> , chwe <i>phunt</i> , chwe <i>choeden</i>
tra ansoddeiriau ar ôl <u>tra</u>	tra <i>phwysig</i> , tra <i>chyffredin</i>
tua ar ôl <u>tua</u>	tua <i>phump</i> o'r gloch tua <i>chan</i> mil o bobl

Anadliad Caled 'h'

Yn ogystal â'r tri treigladd uchod, mae angen cofio am ychwanegu 'h' o flaen enwau a berfenwau sy'n dechrau â llafariad os yn dod ar ôl:

- | | |
|--------------------------------------|----------------------------|
| • <u>ei</u> neu <u>i</u> (benywaidd) | e.e. ei <i>hysgol</i> hi |
| • ein | e.e. ein <i>hysgol</i> ni |
| • eu | e.e. eu <i>hysgol</i> nhw |
| • <u>i'w</u> (benywaidd) | e.e. i'w <i>hysgol</i> hi |
| • <u>i'w</u> (lluosog) | e.e. i'w <i>hysgol</i> nhw |
| • <u>i'n</u> | e.e. i'w <i>hysgol</i> hi |
| • <u>m</u> | e.e. a'm <i>hathrawes</i> |